



Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 CBAC mewn Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi (Dyfarniad Technegol)

DEUNYDDIAU ASESU
ENGHREIFFTIOL

UNED 2

I'w haddysgu o 2022
I'w dyfarnu o 2024

Cynnwys

	Tudalen
Briff yr aseiniad a thasgau	3
Canllaw i'r rheolaethau	6
Cynllun marcio	9



Uned 2: Gwella Perfformiad mewn Chwaraeon

Aseiniad

DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

4 ½ AWR

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Darllenwch y briff yn ofalus cyn dechrau'r aseiniad.

Byddwch yn ennill marciau am dasgau allweddol a gaiff eu cwblhau yn y ffenestr Asesu. Caiff cyfanswm o 4 awr ei neilltuo ar gyfer tasgau a asesir. Ni chewch fwy na'r amser hwn. Mae'r amser a argymhellir wedi'i nodi ar gyfer pob tasg.

Dylai eich gwaith gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth a feithrinwyd yn ystod sesiynau addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Darllenwch y wybodaeth a thasgau'r aseiniad yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn sydd ei angen.

Pan fydd tasg yn nodi 'ni chaniateir cydweithio', mae'n rhaid i chi weithio'n annibynnol ar yr ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith eich hun heb gymorth neb yw'r dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu.

Gwiriwch eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Bydd angen i chi a'ch athro lofnodi datganiad mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r holl waith a gyflwynir.

Ni chewch drafod na rhannu unrhyw fanylion am y briff na'r tasgau.

Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 CBAC/Eduqas mewn Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi (Dyfarniad Technegol)

Uned 2 – Gwella Perfformiad mewn Chwaraeon

Asesiad dan Reolaeth

Briff yr Aseiniad

Fel mabolgampwr byddwch yn cymryd rhan yn un o'r canlynol cyn hir:

- y tymor cystadleuol nesaf
- cystadleuaeth
- perfformiad

cam tîm neu unigol o'ch dewis.

Er mwyn perfformio ar eich gorau, mae eich hyfforddwr wedi gofyn i chi ymchwilio i'r ffactorau ffisiolegol, seicolegol a thechnegol a allai effeithio ar eich perfformiad mewn chwaraeon. Bydd y broses hon yn cynnwys casglu data ac asesu eich perfformiad cyfredol. Bydd angen i chi fesur neu gasglu data a dadansoddi'r ffactorau sy'n effeithio ar eich perfformiad mewn chwaraeon er mwyn ei wella.

Pan fyddwch wedi casglu, mesur a chofnodi eich data personol, rhaid i chi ddewis strategaethau y gellid eu defnyddio i wella eich perfformiad yn seiliedig ar y data a hefyd gyfiawnhau pam rydych wedi dewis y strategaethau a ddewiswyd.

Rhaid i chi:

- lunio adroddiad i ddangos eich bod yn deall y modd y gall ffactorau effeithio ar eich perfformiad personol mewn chwaraeon
- asesu eich perfformiad cyfredol
- casglu a mesur data ar y ffactorau sy'n effeithio ar eich perfformiad cyfredol mewn chwaraeon
- dadansoddi'r data
- dewis strategaethau y gellid eu defnyddio i wella eich perfformiad yn seiliedig ar y data a gasglwyd a chyfiawnhau pam eich bod wedi dewis y strategaethau hyn.

Tasgau Aseiniad

Cynnwys yr Uned	Tasgau:	Tystiolaeth sy'n ofynnol	Amser	Rheolaethau	AA	Marciau
2.1.1 2.1.2 2.1.3	1. Amlinellwch y ffactorau a all effeithio ar berfformiad mewn chwaraeon. Esboniwch sut y gallai'r ffactorau hyn effeithio ar eich perfformiad personol mewn chwaraeon mewn camp o'ch dewis. Dylech ystyried y canlynol: - ffisiolegol – (ffordd o fyw, cyfansoddiad y corff, cydrannau iechyd a ffitrwydd) - seicolegol (cymhelliant a gorbryder) - technegol (techneg, strategaethau a thactegau).	Cyflwyniad llafar wedi'i recordio/ adroddiad ysgrifenedig	1 awr	Goruchwyliaeth: Uniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Ni chaniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA1 AA2	[14]
2.1.1 2.1.2 2.1.3 2.2.1	2. Dewiswch a defnyddiwch y dulliau monitro a mesur ar gyfer y ffactorau a allai effeithio ar eich perfformiad personol mewn chwaraeon. Dylech ystyried y canlynol: - mesuriadau neu ddata ar gyfer y ffactorau yn cynnwys; - profion ffitrwydd ac iechyd - arsylwadau gweledol - cyfweliadau - cofnodion mewn dyddiadur - holiaduron - dadansoddi perfformiad. Pan fyddwch wedi dewis eich dulliau monitro a mesur, rhaid i chi fesur a chasglu'r data. Ni chaiff yr amser a gymerir i fesur neu i gasglu'r data hyn ei gynnwys yn y 4 awr sydd ar gael ar gyfer yr asesiad hwn. Rhaid i chi gwblhau adroddiad ysgrifenedig sy'n nodi'r dulliau monitro a mesur a ddefnyddiwyd a'ch canlyniadau.	Adroddiad ysgrifenedig	1 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA2	[10]
2.2.2	3. Dansoddwch y data a gasglwyd yn Nhasg 2 . Dylech ystyried y canlynol: - data meintiol ac ansoddol - cryfderau a gwendidau eich perfformiad mewn chwaraeon - y meysydd i'w gwella.	Cyflwyniad llafar wedi'i recordio/ adroddiad ysgrifenedig	1 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA3	[14]
2.2.3	4. Argymhellwch strategaethau y gellid eu defnyddio i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella yn eich perfformiad mewn chwaraeon a nodir yn Nhasg 3 . Cyfiawnhewch pam eich bod wedi dewis y strategaethau hyn. Dylech ystyried y canlynol: - rhaglen hyfforddiant - cynllun maeth - adferiad - delweddaeth/ymarfer meddyliol - hunansiarad a phennu nodau - adborth a hyfforddiant.	Adroddiad ysgrifenedig	1 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA3	[12]
Cyfanswm y Marciau						50

Canllaw i Reolaethau

Mae nifer o agweddau gwahanol a reolir o fewn yr asesiad mewnol o'n Dyfyniadau Galwedigaethol, sef:

- goruchwyliaeth
- canllawiau
- adnoddau
- cydweithredu

Goruchwyliaeth

Bydd dwy lefel o oruchwyliaeth i'w gweld drwy gydol Asesiad Dan Reolaeth Uned 2 Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi:

Uniongyrchol	Mae cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau. Rhaid i'r ganolfan sicrhau: • bod y goruchwylwr yn gallu gweld pob ymgeisydd yn glir drwy gydol y sesiwn / sesiynau) • bod deunyddiau arddangos a allai fod o gymorth yn cael eu tynnu neu eu gorchuddio • nad yw ymgeiswyr yn gallu defnyddio e-bost, y rhyngwrdd na ffonau symudol • bod ymgeiswyr yn cwblhau eu gwaith yn annibynnol • nad yw ymgeiswyr yn cyfathrebu â'i gilydd • nad oes unrhyw fath o gymorth yn cael ei roi. • rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen. Pan nodir bod angen goruchwyliaeth uniongyrchol, rhaid i'r ganolfan sicrhau bod poster Dim Ffonau Symudol JCQ a Rhybudd JCQ i Ymgeiswyr yn cael eu harddangos.
Anuniongyrchol	Nid oes rhaid goruchwyllo'r ymgeiswyr yn uniongyrchol drwy'r amser. Rhaid i'r ganolfan sicrhau: • bod pob ymgeisydd yn cymryd rhan yn yr asesiad • bod digon o oruchwyliaeth i sicrhau bod y gwaith yn gallu cael ei ddilysu • mai gwaith unigol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu. Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.

Cyfarwyddyd

Bydd dwy lefel o ganllawiau i'w gweld drwy gydol Asesiad Dan Reolaeth Uned 2 Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi:

Categori o gyngor/adborth: <i>Gall athrawon:</i>	Uniongyrchol	Anuniongyrchol
Adolygu gwaith ymgeiswyr a rhoi cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig ar lefel gyffredinol .	✗	✓
Gwerthuso cynnydd hyd yn hyn a chynnig ffyrdd eang o wella.	✗	✗
Rhoi cyngor manwl a phenodol ar sut i wella fersiynau drafft er mwyn bodloni meini prawf asesu.	✗	✗
Rhoi adborth manwl ar wallau a hepgoriadau sy'n gadael ymgeiswyr heb gyfle i ddangos y gallant weithio ar eu liwt eu hunain.	✗	✗
Ymyrryd yn bersonol i wella cyflwyniad neu gynnwys darn o waith.	✗	✗

Cyn rhoi cymorth ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a ddisgrifir uchod, rhaid i athrawon sicrhau bod darpariaeth ar gael i gofnodi'r cymorth hwn. Rhaid cofnodi manylion ar y ffurflen gofnodi a gyhoeddir gan CBAC. Rhaid ystyried yr ymyrraeth wrth farcio'r gwaith. Dylid defnyddio anodiadau i esbonio sut cafodd marciau eu cymhwyso yng nghyd-destun y cymorth ychwanegol a roddwyd. Ystyrir methu â dilyn y weithdrefn hon yn achos o gamymddwyn.

Adnoddau

Yn Uned 2, bydd yr ymgeiswyr yn ymgymryd â thasgau sy'n nodweddiadol o'r gweithle ac felly caniateir iddynt ddefnyddio adnoddau a fyddai'n cael eu defnyddio fel arfer yn yr amgylchedd hwnnw.

Bydd dwy lefel o reolaeth ar gyfer adnoddau i'w gweld drwy gydol Asesiad Dan Reolaeth Uned 2 Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi:

Ni chaniateir

Ni chaiff ymgeiswyr ddefnyddio adnoddau.

Ni chaiff ymgeiswyr ddefnyddio'r Rhyngrwyd.

Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.

Os yw'r fanyleb yn caniatáu i ymgeiswyr ddod â'u cyfrifiaduron eu hunain neu ddyfeisiau electronig eraill i sesiynau dan oruchwyliaeth ffurfiol, rhaid cynnal gwiriadau priodol er mwyn sicrhau y caniateir yr holl ddeunyddiau sydd wedi'u storio ar y dyfeisiau ac na ellir cael mynediad i'r rhyngrwyd.

Caniateir

Mae gan ymgeiswyr yr hawl i ddefnyddio adnoddau a/neu nodiadau paratoi yn ôl cyfarwyddyd y briff neu'r arweiniad yn yr uned.

Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.

Dylai canolfannau gyfeirio at fanylebau neu ganllawiau pwnc-benodol.

Dylai canolfannau gyfeirio at ganllawiau CBAC Camymddwyn – canllaw i ganolfannau a chanllawiau JCQ Suspected malpractice in examinations and assessments – policies and procedures and procedures os nad ydynt yn siŵr ynghylch y camau nesaf y dylent eu cymryd.

Cydweithredu

Bydd un lefel o reolaeth o ran cydweithio i'w gweld drwy gydol Asesiad dan Reolaeth Uned 2 Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi:

Ni chaniateir

Ni ddylai ymgeiswyr gydweithio mewn unrhyw ffordd yn ystod y dasg.

Ailddrafftio

Caniateir ailddrafftio o fewn yr amser a neilltuir ar gyfer yr asesiad dan reolaeth a heb adborth gan yr athro.

Amser

Neilltuir cyfanswm o 4 awr ar gyfer tasgau a asesir. Ni chaniateir mwy o amser na hynny. O ran rheolaethau amser, canllaw yn unig fydd yr amseriadau a argymhellir ar gyfer tasgau Uned 2. Fodd bynnag, dylai canolfannau annog ymgeiswyr i beidio â chymryd mwy o amser na hynny na pheidio â rhoi digon o amser i wneud y gwaith hwn.

Cynllun Marcio

Cyfarwyddyd

Gridiau asesu ar gyfer asesiad dan reolaeth – Uned 2

Egwyddorion marcio cyffredinol

- Mae'r marciau a ddyfernir yn farciau cyflawn (nid hanner marciau, na ffracsiynau eraill).
- Dim ond pan gaiff y nodweddion hyn eu hasesu'n benodol gan y cwestiwn fel y nodir gan y cynllun marcio y dylid dyfarnu atebion ar ansawdd y sillafu, yr atalnodi a'r gramadeg. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.
- Dylid dyfarnu marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau a nodir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag; gellir cyfyngu ar y defnydd o'r ystod lawn o farciau yn unol ag ansawdd yr ymatebion a welir gan yr ymgeisydd).
- Mae'r marciau a ddyfernir yn seiliedig ar y gofynion a ddiffinnir yn y cynllun marcio yn unig. Ni ddylid dyfarnu marciau gan ystyried trothwyon gradd na disgrifyddion gradd.

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae'r disgrifydd ar gyfer y band yn darparu disgrifiad o lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau.

Cyn marcio, dylai aseswyr yn gyntaf ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r broses anodi, gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai aseswyr edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai aseswyr dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Ar ôl penderfynu ar y band, gall aseswyr fynd ati i bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gall aseswyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

Safoni mewnol

Os oes mwy nag un athro/athrawes mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy'r wefan ddiogel ar ddiwrnod y canlyniadau.

Gwahaniaethu o fewn ein cynlluniau marcio

Mae'r grid canlynol yn dangos ein man cychwyn ar gyfer creu ein cynlluniau marcio. Defnyddir y rhain er mwyn sicrhau bod modd gwahaniaethu rhwng ein bandiau. Bydd cynlluniau marcio yn defnyddio'r tabl hwn fel sail ar gyfer asesu pob cwestiwn ond bydd yn adlewyrchu gofynion penodol y cwestiwn.

Band Disgrifydd	AA1	AA2	AA3
Ardderchog	- Yn ymwybodol o amrediad eang o wybodaeth fanwl a chywir. - Yn dangos dealltwriaeth sydd wedi'i datblygu'n llawn ac sy'n dangos perthnasedd i ofynion y cwestiwn. - Defnydd effeithiol a manwl gywir o derminoleg.	- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso'n gyson i gyd-destun y cwestiwn/y dasg. - Mae sgiliau ymarferol yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn effeithiol ac maent o safon uchel. - Yn gallu llunio dehongliad trylwyr ac wedi'i datblygu'n llawn sy'n hollol gywir.	- Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd effeithiol iawn. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i ddatblygu dadl effeithiol a chytbwys. - Gwerthusiad manwl ac wedi'i gyfiawnhau sy'n cynnig barn gadarn, yn arwain at gasgliadau rhesymol.
Da lawn	- Yn meddu ar amrediad o wybodaeth fanwl a chywir. - Yn dangos dealltwriaeth wedi'i datblygu'n dda sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. - Defnydd manwl gywir o derminoleg.	- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso'n gyson i gyd-destun y cwestiwn/y dasg. - Mae sgiliau ymarferol yn cael eu cymhwyso'n effeithiol ac maent o safon uchel i ganolig. - Yn gallu llunio dehongliad datblygedig, sy'n gywir ar y cyfan.	- Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd effeithiol. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl ddatblygedig, na chaiff ei chyflwyno'n gyfartal o bosibl. - Gwerthusiad manwl sy'n cynnig barn gadarn ar y cyfan, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau rhesymol a thystiolaeth.
Da	- Yn meddu ar amrediad o wybodaeth fanwl a chywir. - Yn dangos dealltwriaeth wedi'i datblygu'n dda sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. - Defnydd manwl gywir o derminoleg.	- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso'n gyson i gyd-destun y cwestiwn/y dasg. - Mae sgiliau ymarferol yn cael eu cymhwyso'n effeithiol ac maent o safon uchel i ganolig. - Yn gallu llunio dehongliad datblygedig, sy'n gywir ar y cyfan.	- Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd effeithiol. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl ddatblygedig, na chaiff ei chyflwyno'n gyfartal o bosibl. - Gwerthusiad manwl sy'n cynnig barn gadarn ar y cyfan, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau rhesymol a thystiolaeth.

Boddhaol	- Yn cynnwys gwybodaeth gywir. - Yn dangos dealltwriaeth gadarn sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn/y dasg. - Yn defnyddio terminoleg yn fanwl gywir ar y cyfan.	- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso i gyd-destun y cwestiwn/y dasg ar y cyfan. - Mae sgiliau ymarferol yn cael eu cymhwyso'n briodol ac maent o safon ganolog. - Yn gallu llunio dadansoddiad cadarn sy'n gywir ar y cyfan.	- Yn defnyddio sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd briodol a chadarn. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl gadarn. NEU - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl unochrog fanwl. - Gwerthusiad rhai barnau, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau a thystiolaeth.
Sylfaenol	- Yn dangos peth gwybodaeth gywir. - Yn dangos dealltwriaeth rannol sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. - Peth defnydd o derminoleg briodol.	- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso'n rhannol i gyd-destun y cwestiwn/y dasg. - Mae'r sgiliau ymarferol o safon ganolog i isel. - Yn gallu llunio peth dehongliad sy'n dangos peth cywirdeb.	- Yn defnyddio sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd briodol gan ddangos lefel gadarn o gymhwysedd ond efallai nad oes manylder. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl unochrog - Gwerthusiad sy'n cynnig barn a chasgliadau cyffredinol, gyda defnydd gofynnol o dystiolaeth.
Cyfngedig	- Gwybodaeth gyfyngedig gyda pheth perthnasedd i'r pwnc neu'r cwestiwn. - Prin yw'r datblygiad a welir, neu nid oes datblygiad o gwbl. - Prin iawn yw'r defnydd o derminoleg, neu ni chaiff ei defnyddio o gwbl.	- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso mewn ffordd ofynnol i gyd-destun y cwestiwn/y dasg. - Mae sgiliau ymarferol o safon isel. - Os oes dehongliad o gwbl, mae hwnnw'n ddehongliad syml a chyfyngedig iawn yw'r cywirdeb.	- Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso gyda chymhwysedd cyfyngedig. - Gwerthusiad heb ei gefnogi sy'n cynnig barnau/casgliadau syml, os o gwbl.

Pan fyddwch yn edrych ar bob un o'n cynlluniau marcio, byddwch yn gweld bod pob band yn cynnwys dilyniant o ddisgrifyddion perfformiad. Mae'r disgrifyddion yn gweithio fel ysgol: o'r gris isaf, i'r gris uchaf. Y band isaf 'Cyfyngedig' yw'r disgrifydd symlaf o ran perthynas perfformiad ymgeiswyr. Mae'r disgrifyddion hyn yn datblygu drwy'r grid i'r agwedd fwy heriol ar yr amcan asesu hwnnw. Mae'n bwysig nodi na fydd pob cwestiwn yn defnyddio pob pwynt bwled a restrir yn y tabl uchod, fodd bynnag, dylai'r ymgeiswyr ddangos **pob un o'r gofynion** sydd wedi'u cynnwys yn y cynlluniau marcio cyhoeddedig er mwyn ennill marciau llawn ar lefel benodol. Os bydd ymgeisydd yn cael marciau llawn ar lefel benodol, dylai'r marcwyr weld a yw'n dangos unrhyw rai o'r gofynion o'r lefel nesaf i fyny. Yn aml, bydd ymgeiswyr yn cyflawni rhai o'r disgrifyddion ar un lefel, ond nid pob un ohonynt. Yn yr achos hwn, dylid cymhwyso dull ffit orau.

Mae'r Canllaw ar Weinyddu Dyfarniadau Galwedigaethol yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y ffordd mae'r cynlluniau marciau ar gyfer ein Dyfarniadau Galwedigaethol wedi'u llunio, gan gynnwys gwybodaeth am y defnydd o fandiau marciau ar gyfer Ardderchog, Da lawn a Da.

Cynllun marcio a gridiau marcio ar gyfer Uned 2

Tasg 1 Amlinellwch y ffactorau a all gael effaith ar berfformiad chwaraeon. Esboniwch y modd y gallai'r ffactorau hyn effeithio ar eich perfformiad personol mewn chwaraeon mewn camp o'ch dewis.

Dylech ystyried y canlynol:

- ffisiolegol – (ffordd o fyw, cyfansoddiad y corff, cydrannau iechyd a ffitrwydd)
- seicolegol (cymhelliant a gorbryder)
- technegol (techneg, strategaethau a thactegau).

[14 marc]

Band	AA1: Dangos gwybodaeth am bob rhan o'r fanyleb a dealltwriaeth ohoni.	AA2: Cymhwyso (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.
4	Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn.	9-10 marc Ymateb gwych sy'n dangos: • Cymhwyso gwybodaeth am y ffactorau ffisiolegol, seicolegol a thechnegol a allai effeithio ar berfformiad personol yr ymgeisydd mewn chwaraeon a dealltwriaeth ohonynt mewn modd manwl ac effeithiol • amrywiaeth eang o gyfeiriadau at effaith ffactora ffisiolegol, seicolegol a thechnegol ar berfformiad yr ymgeisydd mewn chwaraeon.
3	4 marc Ymateb da sy'n dangos: • amrywiaeth o wybodaeth a dealltwriaeth gywir sy'n berthnasol i'r ffactorau a all effeithio ar berfformiad chwaraeon sy'n gywir • defnydd manwl gywir o derminoleg.	6-8 marc Ymateb da sy'n dangos: • Cymhwyso gwybodaeth am y ffactorau ffisiolegol, seicolegol a thechnegol a allai effeithio ar berfformiad personol yr ymgeisydd mewn chwaraeon a dealltwriaeth ohonynt mewn modd manwl • amrywiaeth o gyfeiriadau at effaith ffactorau ffisiolegol, seicolegol a thechnegol ar berfformiad yr ymgeisydd mewn chwaraeon.

2	2-3 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • peth gwybodaeth gywir a dealltwriaeth rannol sy'n berthnasol i'r ffactorau a all effeithio ar berfformiad mewn chwaraeon • peth defnydd o derminoleg briodol.	3-5 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • peth cymhwyso gwybodaeth am y ffactorau ffisiolegol, seicolegol a thechnegol a allai effeithio ar berfformiad personol yr ymgeisydd mewn chwaraeon a dealltwriaeth ohonynt • peth cyfeiriadau at effaith ffactorau ffisiolegol, seicolegol a thechnegol ar berfformiad yr ymgeisydd mewn chwaraeon.
1	1 marc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: • gwybodaeth gyfyngedig a dealltwriaeth brin sy'n berthnasol i'r ffactorau a all effeithio ar berfformiad mewn chwaraeon • prin iawn yw'r defnydd o derminoleg, neu ni chaiff ei defnyddio o gwbl.	1-2 marc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: • cymhwyso gwybodaeth am y ffactorau ffisiolegol, seicolegol a thechnegol a allai effeithio ar berfformiad personol yr ymgeisydd mewn chwaraeon a dealltwriaeth ohonynt mewn modd cyfyngedig • rhai cyfeiriadau at effaith ffactorau ffisiolegol, seicolegol a thechnegol ar berfformiad yr ymgeisydd mewn chwaraeon.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 2

Dewiswch a defnyddiwch y dulliau monitro a mesur ar gyfer y ffactorau a allai effeithio ar eich perfformiad personol mewn chwaraeon.

Dylech ystyried y canlynol:

- mesuriadau neu ddata ar gyfer y ffactorau yn cynnwys:
 - profion ffitrwydd ac iechyd
 - arsylwadau gweledol
 - cyfweiliadau
 - cofnodion mewn dyddiadur
 - holiaduron
 - dadansoddi perfformiad.

Pan fyddwch wedi dewis eich dulliau monitro a mesur, rhaid i chi fesur a chasglu'r data. Ni chaiff yr amser a gymerir i fesur neu i gasglu'r data hyn ei gynnwys yn y 4 awr sydd ar gael ar gyfer yr asesiad hwn.

[10 marc]

Band	AA2: Defnyddio sgiliau (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau
4	9-10 marc Ymateb gwych sy'n dangos: • gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i fesur ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad personol mewn chwaraeon a dealltwriaeth ohonynt sy'n effeithiol iawn • amrywiaeth eang o ddata perthnasol wedi'u casglu neu eu mesur • cymhwyso gwybodaeth allweddol yn fanwl ac effeithiol drwyddi draw, gydag amrywiaeth eang o ddulliau monitro a mesur perthnasol wedi'u dethol a'u cymhwyso er mwyn helpu i wella perfformiad yn y dyfodol
3	6-8 marc Ymateb da sy'n dangos: • gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i fesur ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad personol mewn chwaraeon a dealltwriaeth ohonynt sy'n effeithiol • amrywiaeth o ddata perthnasol wedi'u casglu neu eu mesur • cymhwyso gwybodaeth allweddol yn fanwl, gydag amrywiaeth o ddulliau monitro a mesur wedi'u dethol a'u cymhwyso er mwyn helpu i wella perfformiad yn y dyfodol.
2	3-5 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • peth gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i fesur ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad personol mewn chwaraeon a dealltwriaeth ohonynt • peth data perthnasol wedi'u casglu neu eu mesur • rhywfaint o wybodaeth, gyda rhywfaint o ddulliau monitro a mesur wedi'u dethol a'u cymhwyso er mwyn helpu i wella perfformiad yn y dyfodol.

1	1-2 farc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: • gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i fesur ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad personol mewn chwaraeon a dealltwriaeth ohonynt sy'n gyfyngedig • data perthnasol cyfyngedig wedi'u casglu neu eu mesur • rhywfaint o wybodaeth gyfyngedig, gyda rhywfaint o ddulliau monitro a mesur wedi'u dethol a'u cymhwyso er mwyn helpu i wella perfformiad yn y dyfodol.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 3	Dadansoddwch y data a gasglwyd yn Nhabl 2. Dylech ystyried y canlynol: • data meintiol ac ansoddol • cryfderau a gwendidau eich perfformiad mewn chwaraeon • y meysydd i'w gwella. [14 marc]
Band	AA3: Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau.
4	12-14 marc Ymateb gwyb sy'n dangos: • dadansoddiad manwl ac effeithiol o ymchwil a data • dadansoddiad effeithiol iawn o'i gryfderau a'i wendidau eu hun, gan nodi meysydd clir i'w gwella • nodi meysydd i wella perfformiad yn y dyfodol yn llaw, yn seiliedig ar ganfyddiadau o ddadansoddiad o'i berfformiad ei hun.
3	8-11 marc Ymateb da sy'n dangos: • dadansoddiad manwl o'r ymchwil a'r data • dadansoddiad effeithiol o'i gryfderau a'i wendidau ei hun, gan nodi meysydd i'w gwella • nodi meysydd i wella perfformiad yn y dyfodol, yn seiliedig ar ganfyddiadau o ddadansoddiad o'i berfformiad ei hun.
2	4-7 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • peth dadansoddiad o'r ymchwil a'r data • dadansoddiad rhannol o'i gryfderau a'i wendidau ei hun, gan nodi rhai meysydd i'w gwella • nodi rhai meysydd i wella perfformiad yn y dyfodol, yn bennaf yn seiliedig ar ganfyddiadau o ddadansoddiad o'i berfformiad ei hun.
1	1-3 marc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: • dadansoddiad cyfyngedig o'r ymchwil a'r data • dadansoddiad cyfyngedig o'i gryfderau a'i wendidau gan nodi maes i'w wella yn fras • nodi meysydd i wella perfformiad yn y dyfodol mewn modd cyfyngedig, wedi'i seilio'n fras ar ganfyddiadau o ddadansoddiad o'i berfformiad ei hun.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 4	Argymhellwch strategaethau y gellid eu defnyddio i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella yn eich perfformiad mewn chwaraeon a nodir yn Nhasg 3. Cyfiawnhewch pam eich bod wedi dewis y strategaethau hyn. Dylech ystyried y canlynol: • rhaglen hyfforddiant • cynllun maeth • adferiad • delweddaeth/ymarfer meddyliol • hunansiarad a phennu nodau • adborth a hyfforddiant. [12 marc]
	AA3: Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau.
4	10-12 marc Ymateb gwych sy'n dangos: • argymhellion wedi'u hystyried yn llawn i fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a'u gwella mewn perfformiad mewn chwaraeonyn seiliedig ar ddadansoddiad a gwaith ymchwil cychwynnol; mae'r argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth i raddau sylweddol • cyfiawnhad manwl ac effeithiol o'r rheswm dros ddewis y strategaethau ar gyfer gwella.
3	7-9 marc Ymateb da sy'n dangos: • argymhellion i fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a'u gwella mewn perfformiad mewn chwaraeon yn seiliedig i raddau helaeth ar ddadansoddiad a gwaith ymchwil cychwynnol; mae'r argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth • cyfiawnhad manwl o'r rheswm dros ddewis y strategaethau ar gyfer gwella.
2	4-6 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • rhai argymhellion i fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a'u gwella mewn perfformiad mewn chwaraeon gyda rhywfaint o gyfeiriad at ddadansoddiad a gwaith ymchwil cychwynnol; mae'r argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth yn rhannol • rhywfaint o gyfiawnhad dros ddewis strategaethau ar gyfer gwella.
1	1-3 marc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: • argymhellion cyfyngedig i fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a'u gwella mewn perfformiad mewn chwaraeon, gyda diffyg cyfeiriad at ddadansoddiad a gwaith ymchwil cychwynnol; mae'r argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth i raddau gofynnol • cyfiawnhad cyfyngedig ar gyfer dewis strategaethau ar gyfer gwella.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

2. Meini Prawf Asesu

Tasgau	Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)						Dyraniad marciau			
	Pwnc ac Adran						Cyfansw m y Marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3
	2.1			2.2						
	2.1.1	2.1.2	2.1.3	2.2.1	2.2.2	2.2.3				
1	✓	✓	✓				14	4	10	
2	✓	✓	✓	✓			10		10	
3					✓		14			14
4						✓	12			12
	Cyfanswm y Marciau						50	4	20	26